Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

Ysgol Gynradd Pontrobert
Pontrobert
Meifod
Powys
SY22 6JN

Rhif yr Ysgol: 6662041

Dyddiad yr Arolygiad: 20 Hydref 2008

gan

Terwyn James Tomos
78879

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Rhagfyr 2008

O dan rif contract Estyn: 1102108

ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Pontrobert fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Pontrobert rhwng 20fed Hydref a 22ain Hydref 2008 gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Terwyn James Tomos. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	6
Safonau	6
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	6
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	9
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	9
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	11
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	13
Arweinyddiaeth a rheolaeth	15
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	15
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	16
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	17
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	18
Plant dan 5 oed	18
Mathemateg	21
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	21
Celf	22
Addysg gorfforol	23
Addysg grefyddol	24
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	25
Atodiadau	26
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	26
2 Data a dangosyddion ysgol	26
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	27
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	27
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	28

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Mae Ysgol Pontrobert yn ysgol fach wledig, cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei lleoli yng nghanol pentref Pontrobert yng ngogledd Powys. Mae dalgylch yr ysgol yn ardal amaethyddol gyda nifer o'r disgyblion yn byw ar ffermydd, neu â chysylltiad gydag amaethyddiaeth. Y mae'n ardal draddodiadol Gymreig gyda thraddodiad hanesyddol arbennig.
2. Er bod mwyafrif y disgyblion yn hanu o gartrefi lle mai Saesneg yw'r iaith gyntaf (69%), mae hon yn ysgol Gymraeg sy'n addysgu ei disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1, ac yn anelu at sicrhau fod pob disgybl yn ddwyieithog cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Yng nghyfnod allweddol 2 addysgir Saesneg fel pwnc ac fe'i defnyddir fel cyfrwng addysgu mewn pynciau eraill.
3. Adeg yr arolygiad, roedd 24 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae hyn yn llai na chyfnod yr arolygiad diwethaf, pan oedd 54 o ddisgyblion yn yr ysgol.
4. Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth, y naill ar gyfer disgyblion 4-7 oed a'r llall ar gyfer disgyblion 7–11 oed. Fel arfer, mae'r disgyblion yn dechrau'r ysgol yn ystod tymor eu pen blwydd yn bedair oed.
5. Nid yw'r ardal yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd, yn ôl barn yr ysgol. Nid oes un o'r disgyblion yn yr ysgol â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran sirol a chenedlaethol.
6. Derbynnir disgyblion o'r ystod gallu llawn i'r ysgol. Mae chwe disgybl (25%) wedi eu nodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn uwch na'r canran sirol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).
7. Pennaeth gweithredol sydd i'r ysgol ers Medi 2007. Bu'n athrawes yn yr ysgol am dros bymtheng mlynedd cyn hynny. Mae'r ail athrawes yn yr ysgol yn cychwyn ar ail flwyddyn ei gyrfa. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod mis Hydref 2002

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8. Prif amcanion cyffredinol yr ysgol yw cynnal a chodi safonau disgyblion ym mhob maes cwricwlaidd yn ôl gofynion y cwricwlwm cenedlaethol (CC), ac i ddatblygu cymuned waraidd sy'n pwysleisio gwerthoedd moesol a dynol, ac yn datblygu hunan-barch a goddefgarwch tuag at eraill.
9. Mae prif flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2007-2010 yn cynnwys :
   - codi safonau gwaith llafar ac ysgrifenedig mewn Cymraeg
   - gweithredu'r Cyfnod Sylfaen
   - gwella'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
   - codi safonau addysg gorfforol ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)
   - ennill gwobr arian Eco-Sgolion a gweithio tuag at y Faner Werdd, ennill yr ail ddyfarniad ar gyfer Ysgol Iach, ac ennill statws fel Ysgol Masnach Deg.

Crynodeb

10. Mae Ysgol Pontrobert yn ysgol dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Mae'r disgyblion yn cyflawni safonau da ac yn ddysgwyr annibynnol effeithiol, ac mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog iddynt sydd yn hybu dysgu da. Mae gan y pennaeth a'r corff llywodraethol weledigaeth glir, a chânt eu cefnogi gan staff ymroddedig. Mae'n ysgol gynhwysol iawn.

11. Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r mwyafrif llethol o'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		Gradd arolygu
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 1
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

12. Mae barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu mewn chwech o'r saith cwestiwn allweddol. Mewn un cwestiwn, dyfarnodd y tîm arolygu radd uwch na'r adroddiad hunan arfarnu.

Safonau a chynnydd

13. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
19%	69%	12%	-	-

14. Mae safonau yn y gwersi yn uwch na'r ffigurau cenedlaethol yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) ar gyfer 2006-2007, sy'n datgan bod safonau yn Radd 1 neu'n Radd 2 gyda'i gilydd mewn 80% o'r gwersi a arolygwyd. Mae'r ffigurau hefyd yn uwch na'r 10% a gafodd eu dyfarnu'n genedlaethol yn Radd 1.

Pynciau a/neu feysydd dysgu ar gyfer plant o dan bump oed

15. Gan mai dau blentyn yn unig sydd yn grŵp oedran dan bump, nid yw'n briodol gwneud sylwadau am safonau yn y chwe maes gweithgarwch.

Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd

16. Mae safonau cyflawniad yn y pynciau a arolygwyd yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 fel a ganlyn:

Maes Arolygu	**Cyfnod Allweddol 1**	**Cyfnod Allweddol 2**
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 1
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 1
Celf	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 2	Gradd 1
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

17. Mae'r addysg a ddarperir gan yr ysgol yn bodloni anghenion yr holl ystod o ddisgyblion yn effeithiol.

18. Ar draws yr ysgol, gwna'r disgyblion gynnydd da gyda rhai nodweddion rhagorol, yn eu medrau llythrennedd, TGCh, a dwyieithrwydd. Maent hefyd yn gwneud cynnydd da iawn yn gyffredinol wrth gymhwyso eu medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm, a chynnydd da yn eu medrau creadigol.

19. Yn 2008, roedd cyrhaeddiad y disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn well na'r perfformiad sirol a chenedlaethol mewn Cymraeg a gwyddoniaeth, ac yn is na'r perfformiad cenedlaethol mewn mathemateg. Roedd cyrhaeddiad y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn agos iawn at y perfformiad cenedlaethol mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, ac ychydig yn is na'r perfformiad sirol a chenedlaethol mewn gwyddoniaeth.

20. Dros y cyfnod 2005 – 2007, yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae nifer isel y disgyblion yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau dilys am batrymau cyrhaeddiad yn yr asesiadau diwedd cyfnod allweddol. Wrth gymharu'r carfannau gydag ysgolion eraill tebyg ar sail canrannau cinio am ddim mae'r dangosyddion yn amrywio'n fawr o fod gyda'r 25% uchaf eu perfformiad hyd at y 25% isaf. Fodd bynnag, yn y cyfnod 2002-2007, llwyddodd 91.2% (31 o 34 disgybl) i gael y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yng nghyfnod allweddol 1, a 80.6% (29 o 36 disgybl) yng nghyfnod allweddol 2.

21. Mae disgyblion o bob oed yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio sgiliau meddwl penodol yn ymwybodol a chelfydd ar draws y cwricwlwm. Maent yn gofyn cwestiynau'n ddeallus ac yn datblygu gwybodaeth a medrau newydd yn hyderus.

22. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae ganddynt barch at yr amgylchedd, at athrawon ac oedolion eraill, at eu cyfoedion ac at eu cymdeithas leol. Maent yn ymwybodol o'r rheiny sy'n llai ffodus yn y byd sydd ohoni, ac yn parchu diwylliannau a thraddodiadau cymdeithasol eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o faterion cyfleoedd cyfartal.

23. Mae'r disgyblion yn dangos cynnydd rhagorol yn eu gallu i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith eu hunain. Dangosant gymhelliant da a gweithiant yn gynhyrchiol mewn gwersi. Gall disgyblion drefnu eu gwaith eu hunain, datrys problemau a gwneud penderfyniadau annibynnol yn gynyddol hyderus. Maent yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau ar bob achlysur, ac mae pob unigolyn yn dangos cynnydd da tuag at gyflawni ei botensial.

24. Mae safonau ymddygiad yn gyson dda iawn yn yr ysgol.

25. Mae'r disgyblion yn weithgar yn eu cymuned, ac yn cyfrannu'n helaeth at ddigwyddiadau lleol. Trwy weithgarwch cwricwlaidd a thrawsgwricwlaidd, ymweliadau a gweithgarwch cymunedol mae'r disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth o fyd gwaith.

26. Mae lefelau presenoldeb yn ystod y tri thymor llawn diwethaf yn gyson dda. Y cyfartaledd am y tri thymor cyn yr arolygiad oedd 94.16%. Roedd ffigwr y dosbarth derbyn yn rhagorol ar 97.4%. Mae'r disgyblion yn brydlon ar ddechrau'r dydd ac ar gyfer pob gwers ac achlysur.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

27. Yn y gwersi a arsylwyd, mae'r graddau ar gyfer ansawdd yr addysgu fel a ganlyn.

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
5%	79%	16%	-	-

28. Mae safonau yn y gwersi yn uwch na'r ffigurau cenedlaethol yn Adroddiad Blynyddol y PAEM ar gyfer 2006-2007, sy'n datgan bod safonau yn Radd 1 neu'n Radd 2 gyda'i gilydd mewn 80% o'r gwersi a arolygwyd. Mae'r ffigurau yn is na'r 14% a gafodd eu dyfarnu yn Radd 1.

29. Mae rhai gwendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump, ond ceir tystiolaeth y gellir unioni'r gwendidau hyn yn ddigon hawdd

30. Gwneir defnydd da iawn o arbenigedd staff o fewn system addysgu tîm gan gynnwys y cynorthwywyr dysgu. Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr berthynas ragorol gyda'r disgyblion. Caiff y disgyblion i gyd eu trin yn gyfartal a chynigir cynhaliaeth o safon uchel iddynt. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

31. Nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth yw'r cynllunio a'r cydweithio hynod o effeithiol rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu. Llwyddant i greu ethos gwaith cadarnhaol yn y dosbarthiadau.

32. Mae'r gwaith cynllunio a pharatoi ar gyfer gwersi ar y cyfan yn briodol, ac yn dda iawn mewn rhai achosion. Yn yr arfer orau, rhoddir sylw manwl i anghenion dysgu'r disgyblion ac i ofynion y cwricwlwm perthnasol.

33. Mae'r nodweddion rhagorol i'r addysgu a arolygwyd yn cynnwys:
    - disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion ar draws pob pwnc a maes dysgu;
    - dulliau addysgu effeithiol sydd yn ysgogi disgyblion i ddod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol;
    - cyfleoedd arbennig i'r disgyblion ddatblygu eu syniadau eu hunain ac i berchnogi eu dysgu;
    - defnydd effeithiol o fapiau meddwl;
    - defnydd effeithiol o wahanol strategaethau, gan gynnwys gwaith unigol, pâr a gwaith grŵp, i gymell y disgyblion i roi o'u gorau, a
    - holi medrus er mwyn datblygu agwedd ymchwilgar at ddysgu.

34. Yn ystod gwersi, mae athrawon yn monitro cynnydd y disgyblion yn ofalus ac yn sicrhau bod disgyblion yn deall eu tasgau. Mae'r broses o asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n effeithiol iawn yng nghyfnod allweddol 2 ac mae'r disgyblion yn hyderus wrth werthuso eu cyflawniad ar draws y meysydd cwricwlaidd.

35. Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd yr hyrwyddir hyfedredd dwyieithog y disgyblion. Manteisir yn effeithiol ar bob cyfle i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig o fewn nifer dda o bynciau.

36. Ceir trefniadau asesu cynhwysfawr sy'n sail i holl dargedau'r ysgol. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn cynllunio ystod o ddulliau addas i asesu eu cynnydd.

37. Caiff gwaith ei farcio'n rheolaidd ac mae'r marcio yn nodi ffyrdd ymlaen yn eglur i'r disgyblion

38. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â pholisi asesu'r awdurdod addysg lleol (AALl) mewn perthynas â gweithredu profion safonol ar draws yr ysgol mewn iaith a mathemateg. Gwneir defnydd da o'r wybodaeth ar gyfer monitro cynnydd y disgyblion a safonau cyflawniad, ac i osod targedau priodol.

39. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol. Maent yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol ac yn amlinellu medrau a chyflawniadau'r disgyblion yn dda, yn enwedig yn y pynciau craidd. Maent yn nodi targedau penodol mewn perthynas â datblygiad pellach disgyblion yn eglur.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

40. Arweinir yr ysgol yn gadarn o ddydd i ddydd gan y pennaeth gweithredol. Mae ei harweinyddiaeth yn gwneud yn siŵr bod gwerthoedd yr ysgol yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae ei hymrwymiad i les a datblygiad pob disgybl yn glir i bob aelod o staff, i'r llywodraethwyr ac i'r rhieni, a chaiff ei adlewyrchu yng ngwaith yr ysgol.

41. Mae'r cynllun datblygu ysgol (CDY) yn ddogfen ddefnyddiol a gweithredol sy'n gosod targedau mewn nifer rhesymol o faterion. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn rhai cyfredol, ac yn ymateb i flaenoriaethau ysgol, sirol a chenedlaethol. Mae'r gweithdrefnau gwerthuso sydd ynghlwm wrth y CDY yn fodd effeithiol o fesur cynnydd ar y gwahanol faterion.

42. Mae safle'r yn ddeniadol ac yn gwbl addas i sicrhau addysg dda a chefnogaeth i ddisgyblion. Er hynny, nid yw yn rhwydd iawn i symud o un rhan o'r ysgol i'r llall heb amharu ar waith naill ai'r ysgrifenyddes neu un o'r ddau ddosbarth. Mae'r adeilad a'r ardaloedd allanol yn cael eu cadw yn raenus ac yn cael eu defnyddio yn briodol.

43. Ceir systemau monitro manwl ym mhob pwnc cwricwlaidd. Dilynir camau tebyg ym mhob un, gan gynnwys arfarniad o'r ddarpariaeth, saith cwestiwn allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin a monitro'r addysgu. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldebau hyn yn drwm iawn ar ysgwyddau'r pennaeth gweithredol.

44. Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael a'r saith mater allweddol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf. Adolygwyd y cynlluniau gwaith i gyd; datblygwyd systemau monitro effeithiol; datblygwyd Polisi Amddiffyn Plant ac fe'i gweithredir; a gwnaed newidiadau sylweddol i adeilad yr ysgol.

45. Ar y cyfan, mae dealltwriaeth y llywodraethwyr o'u rôl a'u cyfrifoldebau yn glir. Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at brosesau cynllunio strategol yr ysgol, o dan arweiniad y pennaeth gweithredol. Rhoddant gefnogaeth dda iawn i'r pennaeth gweithredol a gweddill staff yr ysgol. Nid yw adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni yn cwrdd yn llawn â'r gofynion statudol

46. Mae adnoddau digonol ar draws y cwricwlwm sy'n briodol i anghenion dysgu'r disgyblion. Cânt eu defnyddio'n effeithiol iawn i hyrwyddo'r dysgu. Er hyn, mae peth prinder o offer chwarae mawr ar gyfer plant dan bump. Mae'r adnoddau ar gyfer TGCh yn dda iawn.

47. Caiff cyllideb yr ysgol ei rheoli'n effeithlon. Gwneir defnydd effeithiol o gyfraniad sylweddol oddi wrth y Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Adolygir y gwariant yn rheolaidd gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

A1 fynd i'r afael â'r diffygion a nodir yn yr addysgu a sicrhau mwy o gyfleodd i blant dan bump oed i ddatblygu yn greadigol, yn gorfforol, ac mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, ac fel dysgwyr annibynnol a chwilfrydig.

A2 adeiladu ar yr arferion dysgu ac addysgu da a welir yn yr ysgol i ddatblygu disgyblion ym mhellach fel dysgwyr annibynnol er mwyn cwrdd â gofynion y Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3-7 oed yng Nghymru yn y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008.

A3 barhau i chwilio am ffyrdd i addasu adeilad yr ysgol i hwyluso a chyfoethogi'r ddarpariaeth fewnol ac allanol ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen.

A4 chwilio am ffyrdd i leihau pwysau gwaith y pennaeth gweithredol fel cydlynydd pynciau.

A5 sicrhau bod adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni yn cyfarfod â'r gofynion cyfredol yn llawn.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

48. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

49. Yn y gwersi a arolygwyd, mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
19%	69%	12%	-	-

50. Mae safonau yn y gwersi yn uwch na'r ffigurau cenedlaethol yn Adroddiad Blynyddol y PAEM ar gyfer 2006-2007, sy'n datgan bod safonau yn Radd 1 neu'n Radd 2 gyda'i gilydd mewn 80% o'r gwersi a arolygwyd. Mae'r ffigurau hefyd yn uwch na'r 10% a gafodd eu dyfarnu'n genedlaethol yn Radd 1.

Y blynyddoedd cynnar

51. Gan mai dau blentyn yn unig sydd yn grŵp oedran dan bump, nid yw'n briodol gwneud sylwadau am safonau yn y chwe maes gweithgarwch.

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

52. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau cyflawniad y disgyblion yn y pynciau a arolygwyd fel a ganlyn:

Maes Arolygu	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 1
Technoleg Gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 1
Celf	Gradd 2	Gradd 2
Addysg Gorfforol	Gradd 2	Gradd 1
Addysg Grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

53. Ym mhob un o'r pynciau a arolygwyd, gwna'r disgyblion gynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial, a chyflawnant nodau dysgu cytunedig. Mae disgyblion sydd ag ADY yn dangos cynnydd da yn unol â'u targedau.

54. Mae'r plant dan bump oed a disgyblion cyfnod allweddol 1 yn dangos safonau a chynnydd da yn y medrau allweddol gwrando, darllen, siarad, ysgrifennu, cymhwyso rhif a TGCh. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn i ystod o weithgarwch trawsgwricwlaidd yn hyderus ac yn gynyddol annibynnol. Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau dwyieithog yn gyflym iawn wedi dechrau yn yr ysgol ac yn cyrraedd safonau da.

55. Yng nghyfnod allweddol 2, mae nodweddion da iawn yn safonau a chynnydd disgyblion yn eu medrau rhifedd a llythrennedd, ac mae nifer o nodweddion rhagorol yn eu safonau a'u cynnydd mewn TGCh. Mae'r disgyblion yn gyffredinol yn siarad yn glir a hyderus, gan ddefnyddio geirfa briodol yn ddeallus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn darllen ystod o ffynonellau i bwrpas wrth gywain gwybodaeth ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys o'r rhyngrwyd, ac yn cofnodi eu gwaith mewn darnau ysgrifenedig estynedig pan fo hynny'n briodol. Gwnânt ddefnydd pwrpasol o'u medrau rhifedd mewn nifer o agweddau o'u gwaith ar draws y cwricwlwm.

56. Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i ddefnyddio TGCh at amrywiol bwrpasau yn nodwedd ragorol o'r ysgol. Mae'r cyfrifiadur, a theclynnau eraill, yn rhan annatod a naturiol o'u hamgylchedd dysgu, a chânt ddefnydd helaeth ac effeithiol gan y disgyblion i gyd.

57. Mae medrau dwyieithog y disgyblion yn dda iawn. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru defnyddio llythrennedd deuol yn gwbl naturiol, gan gywain gwybodaeth mewn un iaith, a'i thrafod a'i chofnodi yn y llall yn gywir a llwyddiannus.

58. Yn 2008 , roedd cyrhaeddiad y disgyblion mewn asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn well na'r perfformiad sirol a chenedlaethol mewn Cymraeg a gwyddoniaeth, ac yn is na'r perfformiad cenedlaethol mewn mathemateg. Roedd cyrhaeddiad y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn agos iawn at y perfformiad cenedlaethol mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, ac ychydig yn is na'r perfformiad sirol a chenedlaethol mewn gwyddoniaeth.

59. Dros y cyfnod 2005–2007, yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae nifer isel y disgyblion yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau dilys am batrymau cyrhaeddiad yn yr asesiadau diwedd cyfnod allweddol. Wrth gymharu'r carfannau gydag ysgolion eraill tebyg ar sail canrannau cinio am ddim mae'r dangosyddion yn amrywio'n fawr, o fod gyda'r 25% uchaf eu perfformiad hyd at y 25% isaf. Fodd bynnag, yn y cyfnod 2002-2007, llwyddodd 91.2% (31 o 34 disgybl) i gael y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yng nghyfnod allweddol 1, a 80.6% (29 o 36 disgybl) yng nghyfnod allweddol 2.

60. Yn y ddau gyfnod allweddol, nid oes gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad bechgyn a merched, ac mae'r mwyafrif llethol o ddisgyblion yn cyrraedd y targedau cytunedig a osodwyd ar eu cyfer.

61. Drwyddi draw yn yr ysgol, mae agwedd gadarnhaol iawn gan ddisgyblion tuag at ddysgu. Mae hon yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol. Mae ganddynt ddiddordeb yn eu gwaith ac yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau. Mae ethos gwaith cryf yma ac mae'r disgyblion yn frwd wrth ymateb yn y dosbarthiadau.

62. Mae datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn dda iawn, ac mae eu gallu i gydweithio, trwy gyfrwng y 'partneriaid meddwl' bron ym mhob gwers, yn nodwedd ragorol. Mae disgyblion o bob oed yn cydweithio'n gysurus ac effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau o amrywiol faint.

63. Mae gallu disgyblion i ymchwilio a datrys problemau yn dangos cynnydd rhagorol. Gwelir hyn ar ei orau yn themâu ymchwiliol yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y tymor hwn yn nosbarth cyfnod allweddol 2, ac mae'r un gweithgarwch yn dangos datblygiad da ym medrau creadigol y disgyblion.

64. Mae'r disgyblion yn cydweithio gyda'r athrawon i greu eu targedau unigol ar gyfer pob tymor. Mae hyn yn cyfrannu at gryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion o'r targedau hyn. Mae'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn arbennig yn medru trafod cryfderau a gwendidau eu gwaith, ac yn gwybod yr hyn sydd angen ei wneud i wella ei ansawdd.

65. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae ganddynt barch at yr amgylchedd, at athrawon ac oedolion eraill, at eu cyfoedion ac at eu cymdeithas leol. Maent yn ymwybodol o'r rheiny sy'n llai ffodus yn y byd sydd ohoni, ac yn parchu diwylliannau a thraddodiadau cymdeithasol eraill. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o faterion cyfleoedd cyfartal.

66. Mae gwybodaeth y plant am fyd gwaith yn dda ac yn cael ei hyrwyddo trwy amrywiaeth o'r bobl sydd yn ymweld â'r ysgol, sef yr Heddlu, Gwasanaeth Tân, nyrs, amaethwyr, gweithiwr tai a pherchennog siop. Maent yn ymweld â ffermydd lleol a gweithwyr coedwigaeth. Caiff y wybodaeth ei gadarnhau ymhellach gan weithgareddau cwricwlaidd a thrawsgwricwlaidd.

67. Mae gwybodaeth y disgyblion o faterion amgylcheddol a chynaladwyedd yn gadarn. Mae lefel gynyddol o ymwybyddiaeth ganddynt o'u cyfrifoldeb dros amgylchedd yr ysgol, eu cymuned, a'r byd tu hwnt. Caiff yr agweddau hyn eu cadarnhau gan weithgarwch y cyngor ysgol a'r cyngor eco, sy'n cael ei werthfawrogi a'i gefnogi'n helaeth gan y disgyblion.

68. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn. Maent yn gwrtais gyda staff ac oedolion eraill. Mae disgyblion o bob oed yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus, ac

yn symud yn drefnus o gwmpas amgylchedd yr ysgol, ac yn deall a pharchu'r disgwyliadau uchel sydd gan yr ysgol ohonynt.

69. Mae lefelau presenoldeb y disgyblion yn dda. Yn ystod y tri thymor llawn cyn yr arolygiad y cyfartaledd presenoldeb oedd 94.16%, sy'n cymharu'n dda â ffigurau cenedlaethol. Roedd ffigwr y dosbarth derbyn yn rhagorol ar 97.4%. Nid oedd absenoldeb heb ganiatâd yn y cyfnod hwn. Mae'r trefniadau cofrestru yn cwrdd â'r gofynion statudol ac mae'r data yn cael ei gadw ar system gyfrifiadurol. Mae'r disgyblion yn brydlon ar ddechrau'r dydd ac ar gyfer pob gwers ac achlysur.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

70. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

71. Yn y gwersi a arolygwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
5%	79%	16%	-	-

72. Mae safonau yn y gwersi yn uwch na'r ffigurau cenedlaethol yn Adroddiad Blynyddol y PAEM ar gyfer 2006-2007, sy'n datgan bod safonau yn Radd 1 neu'n Radd 2 gyda'i gilydd mewn 80% o'r gwersi a arolygwyd. Mae'r ffigurau yn is na'r 14% a gafodd eu dyfarnu yn Radd 1.

73. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda am bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mabwysiadwyd y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru ar gyfer disgyblion dan bump a chyfnod allweddol 1 er nad yw hyn yn statudol eto. Mae'r prosesau cynllunio yn datblygu i adlewyrchu hyn. Gwneir defnydd da iawn o arbenigedd staff o fewn system addysgu tîm gan gynnwys y cynorthwywyr dysgu.

74. Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr berthynas ragorol gyda'r disgyblion. Caiff y disgyblion i gyd eu trin yn gyfartal a chynigir cynhaliaeth o safon uchel iddynt. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

75. Nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth yw'r cynllunio a'r cydweithio hynod o effeithiol rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu. Llwyddant i greu ethos gwaith cadarnhaol yn y dosbarthiadau.

76. Mae'r gwaith cynllunio a pharatoi ar gyfer gwersi ar y cyfan yn briodol, ac yn dda iawn mewn rhai achosion. Yn yr arfer orau, rhoddir sylw manwl i anghenion dysgu'r disgyblion ac i ofynion y cwricwlwm perthnasol.

77. Defnyddia'r athrawon ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol sy'n cydweddu'n llwyddiannus â'r gweithgareddau y maent yn eu trefnu.

78. Mae'r nodweddion rhagorol i'r addysgu a arolygwyd yn cynnwys:
    - disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion ar draws pob pwnc a maes dysgu;
    - dulliau addysgu effeithiol sydd yn ysgogi disgyblion i ddod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol;

- cyfleoedd arbennig i'r disgyblion ddatblygu eu syniadau eu hunain ac i berchnogi eu dysgu;
- defnydd effeithiol o fapiau meddwl;
- defnydd effeithiol o wahanol strategaethau, gan gynnwys gwaith unigol, pâr a gwaith grŵp, i gymell y disgyblion i roi o'u gorau, a
- holi medrus er mwyn datblygu agwedd ymchwilgar at ddysgu;

79. Mae'r nodweddion da i'r addysgu a arsylwyd yn cynnwys:
    - gwersi ag iddynt nodau clir sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion;
    - cyflwyniadau ysgogol sy'n ennyn brwdfrydedd y disgyblion, a
    - tasgau gwahaniaethol sy'n galluogi disgyblion ar draws yr ystod gallu i'w cyflawni'n llwyddiannus.
80. Mae'r diffygion yn yr addysgu a arsylwyd yn cynnwys:
    - gor-gyfarwyddo plant a disgyblion;
    - cyfleoedd cyfyngedig i blant a disgyblion i wneud dewisiadau am eu dysgu;
    - cyfleoedd cyfyngedig i blant a disgyblion i feddwl yn greadigol, a
    - dewisiadau cyfyngedig o ddefnyddiau cefnogi dysgu.
81. Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd yr hyrwyddir hyfedredd dwyieithog y disgyblion. Manteisir yn effeithiol ar bob cyfle i ddatblygu'r Cwricwlwm Cymreig o fewn nifer dda o bynciau.
82. Yn ystod gwersi, mae athrawon yn monitro cynnydd y disgyblion yn ofalus ac yn sicrhau bod disgyblion yn deall eu tasgau. Mae'r broses o asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n effeithiol iawn yng nghyfnod allweddol 2 ac mae'r disgyblion yn hyderus wrth werthuso eu cyflawniad ar draws y meysydd cwricwlaidd. Gwneir defnydd effeithiol o offer digidol i gofnodi cyflawniadau ar gyfer gwerthuso perfformiadau a chynnig gwelliant.
83. Ceir trefniadau asesu cynhwysfawr sy'n sail i holl dargedau'r ysgol. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn cynllunio ystod o ddulliau addas i asesu eu cynnydd. Rhoddir cyfleoedd cyfartal i bob dysgwr i gyflawni i'w lawn botensial.
84. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â pholisi asesu'r AALl mewn perthynas â gweithredu profion safonol ar draws yr ysgol mewn iaith a mathemateg. Gwneir defnydd da o'r wybodaeth ar gyfer monitro cynnydd y disgyblion a safonau cyflawniad, ac i osod targedau priodol.
85. Mae portffolios o waith, sydd wedi ei lefelu ym mhob pwnc ar y cyd ag ysgolion y clwstwr, yn gymorth i athrawon er mwyn amlygu'r lefelau y dylid eu cyflawni.
86. Pennir targedau personol i'r holl ddisgyblion. Maent wedi eu cysylltu gyda'u perfformiad cyfredol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu cynnydd. Ar lefel briodol, mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn ymwybodol ohonynt ac yn deall eu pwrpas.
87. Caiff gwaith ei farcio'n rheolaidd ac mae'r marcio yn nodi ffyrdd ymlaen yn eglur i'r disgyblion.
88. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn cwrdd â'r gofynion statudol. Maent yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol ac yn amlinellu medrau a chyflawniadau'r disgyblion yn dda, yn enwedig yn y pynciau craidd. Maent yn nodi targedau

penodol mewn perthynas â datblygiad pellach disgyblion yn eglur. Mae'r rhieni'n hapus gyda'r adroddiadau a dderbyniant a gwerthfawrogant y cyfleoedd a gânt i drafod datblygiad eu plant gyda'r athrawon.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

89. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

90. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn gytbwys a hyblyg, ac yn cwrdd â gofynion y CC ac addysg grefyddol. Mae'n bodloni anghenion a diddordebau dysgwyr ac yn adlewyrchu nodau ac amcanion yr ysgol, a nodwyd ym mhrosbectws a pholisïau'r ysgol. Mae polisïau a chynlluniau gwaith cynhwysfawr yn eu lle ac yn weithredol, sy'n hybu dilyniant a pharhad yn y dysgu ar draws gyrfa ysgol y disgyblion.

91. Mae'r ysgol dechrau mynd i'r afael yn effeithiol â'r newidiadau cwricwlaidd yng nghyfnod allweddol 2 yn sgil Cwricwlwm 2008, gan roi ystyriaeth lawn i'r gorchmynion pwnc newydd, yn ogystal â'r fframwaith sgiliau anstatudol. Mae'r arweiniad a geir yn y dogfennau hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar y dysgu a'r addysgu yn yr ysgol, ac yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth.

92. Mae rhai gwendidau yn y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump, ond ceir tystiolaeth y gellir unioni'r gwendidau hyn yn ddigon hawdd. Nid oes cyfleoedd digonol i'r plant ddatblygu eu sgiliau ymarferol ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

93. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn dda iawn gyda nodweddion rhagorol. Mae'n gwbl seiliedig ar adnabyddiaeth gynnar a chefnogaeth unigol reolaidd o ansawdd uchel. Mae'r disgyblion ag ADY yn cael eu cymhathu'n llwyr i bob gweithgarwch yn yr ysgol.

94. Mae'r pwyslais a roddir gan yr ysgol ar ddatblygu medrau allweddol y disgyblion, gan gynnwys y medrau a nodir yn Fframwaith Sgiliau anstatudol, yn nodwedd dda. Mae'r ysgol wedi ennill Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau sylfaenol am y trydydd tro. Yn eu cynlluniau gwaith, mae'r athrawon yn nodi'n glir gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu a defnyddio'r medrau, ac mae dilyniant a pharhad yn amlwg.

95. Rhoddir cryn bwyslais ar ddatblygu dwyieithrwydd y disgyblion, sy'n nodwedd ragorol o'r ysgol. Mae holl weithgareddau'r ysgol, yn gwricwlaidd ac allgyrsiol, yn hybu'r medrau hyn yn dda iawn. Trwy'r cyngor ysgol, penderfynodd y disgyblion eu hunain mai Cymraeg yw iaith yr iard chwarae. Caiff y disgyblion gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau ieithyddol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, eisteddfodau lleol, a gweithgareddau'r Urdd, gan gynnwys ymweliadau â Gwersyll Llangrannog.

96. Cynigia'r ysgol Gwricwlwm Cymreig addas, sy'n ymwneud â nifer o agweddau gan gynnwys hanes lleol, daearyddiaeth (lleol a Chymru), cerddorion, awduron ac arlunwyr Cymreig. Trwy weithgareddau cwricwlaidd, megis ymchwiliad manwl i fasnachu teg, hyrwyddir ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill.

97. Ceir ystod ragorol o brofiadau o ansawdd da i gefnogi dysgu a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Mae'r ystod yn anarferol o eang o ystyried maint yr

ysgol, ac mae llwyddiant y disgyblion mewn chwaraeon a gweithgareddau cerddorol, ar lefel sirol a chenedlaethol, yn arbennig, ac yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth. Ehangir profiadau dysgu'r disgyblion trwy ddarparu cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl oriau ysgol, ac mewn cydweithrediad â'r gymuned leol.

98. Defnyddir ystod eang o agweddau bywyd yr ysgol i hybu a datblygu ABCh y disgyblion. Mae'r amser cylch a drefnir yn rheolaidd yn cyfrannu'n helaeth tuag at y datblygiad hwn. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i'r canllawiau cenedlaethol yn y maes hwn.

99. Ceir darpariaeth ragorol ar gyfer hyrwyddo arferion bwyta'n iach ym mhlith y disgyblion a'r staff. Darperir ffrwythau i'w bwyta yn ystod amser egwyl, ac mae'r rheol i beidio bwyta losin a bisgedi yn cynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol wedi bod yn flaenllaw yn hyrwyddo hyn.

100. Mae profiadau dysgu addas ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Caiff datblygiad ysbrydol y disgyblion ei hybu trwy addoli ar y cyd dyddiol, yr amser cylch dilynol a gwersi addysg grefyddol. Caiff y disgyblion gyfleoedd rhagorol i ymgymryd â chyfrifoldebau yn yr ysgol.

101. Caiff darpariaeth yr ysgol ei chyfoethogi gan siaradwyr gwadd ac ymwelwyr, gan gynnwys gweinidogion, ficer, plismyn, arlunwyr, ac eraill. Mae hyn yn hyrwyddo parch disgyblion at werthoedd ac agweddau gwahanol, ac yn hybu'r ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r ysgol yn annog ei disgyblion i feddwl am eraill ac i fod yn weithredol mewn gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol, gan gynnwys codi arian at elusennau.

102. Ymdrecha'r ysgol yn dda i weithredu mewn modd cynaliadwy, gydag ymrwymiad y pwyllgor eco. Caiff y disgyblion eu cynnwys mewn cynlluniau ailgylchu. Trwy bynciau'r cwricwlwm, yn arbennig gwyddoniaeth a daearyddiaeth, a phrosiectau ar faterion megis Masnach Deg, caiff y disgyblion eu hannog i ddatblygu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang.

103. Mae'r cysylltiadau gyda rhieni yn dda iawn. Mae 'Ffrindiau'r Ysgol' yn codi swm sylweddol yn flynyddol tuag at adnoddau i'r ysgol. Mae rhieni yn cynorthwyo ar deithiau'r ysgol. Mae'r rhieni'n gyffredinol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn mynegi lefel uchel iawn o fodlonrwydd. Mae cytundeb cartref/ysgol yn ei le ac yn cael ei weithredu'n effeithiol.

104. Mae trefniadau cadarn yn eu lle gydag ysgolion eraill ynglŷn â throsglwyddo disgyblion. Mae'r disgyblion yn ymweld â'u hysgolion uwchradd newydd am ddiwrnodau gweithgareddau ac mae athrawon o'r ysgolion hynny yn dod i weithio gyda B6. Mae perthynas dda gydag ysgol feithrin y pentref, sydd yn cyfarfod yn neuadd y pentref sy'n ffinio gyda'r ysgol. Bydd plant yr ysgol feithrin yn ymuno gyda'r ysgol ar gyfer cyngherddau a mabolgampau.

105. Datblygir dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith yn effeithiol trwy ymweliadau â busnesau lleol, yn arbennig ffermydd, trefnu prosiectau busnes megis arwerthwyr tai, siop lysiau organig, a derbyn ymwelwyr i'r ysgol i siarad am eu gwaith. Weithiau bydd yr ysgol yn cydweithio gydag ysgolion cyfagos yn y maes hwn.

106. Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth osod sylfeini ar gyfer dysgu gydol oes. Datblygir hyn yn benodol trwy roi arweiniad i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol sy'n meddu ar lefel uchel o sgiliau sylfaenol a dwyieithrwydd. Mae

hyn yn rhagoriaeth bendant yn yr ysgol. Mae'r cydweithio agos sydd rhwng yr ysgol a'r gymuned, gan gynnwys cyfarfodydd rhwng y cyngor ysgol a'r cyngor cymuned lleol, yn hybu dealltwriaeth disgyblion o adfywio cymunedol.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

107. Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn Gradd 2 yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Nid yw'r adroddiad hunan arfarnu wedi rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i nodweddion rhagorol y ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys adnabyddiaeth drylwyr yr athrawon o anghenion gwahanol y disgyblion, ansawdd arbennig y gofal, y cymorth a'r cyfarwyddyd a gaiff dysgwyr, defnydd rhagorol o'r cynorthwywyr dysgu, y cynllunio manwl i sicrhau'r un cyfle addysgol a chymdeithasol i bob disgybl, a'r llwyddiant arbennig o ran datblygu ethos cynhwysol yr ysgol. Mae partneriaethau arbennig gyda rhieni a phobl eraill o'r gymuned sydd â diddordeb yn yr ysgol.

108. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu a throsglwyddo yn dda. Mae systemau da iawn ar waith i groesawu disgyblion newydd i mewn i'r ysgol a threfniadau da i'w cynorthwyo i ymgartrefu yn yr ysgol. Mae un athrawes yn gweithio gyda disgyblion meithrinfa'r pentref ac mae hyn yn helpu paratoi'r plant bach am reolau Ysgol Pontrobert. Croesewir rhieni disgyblion newydd i'r ysgol i weld y safle ac i dderbyn dogfennaeth bwysig, weithiau gryn amser cyn y dyddiad derbyn swyddogol.

109. Mae ansawdd y cymorth a'r arweiniad personol a ddarperir i'r disgyblion yn rhagorol. Mae gan bob disgybl fynediad llawn i raglen ABCh yr ysgol. Mae trefniadau dyddiol yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain ac i barchu barn pobl eraill. Anogir hyn yn arbennig wrth gydweithio mewn grwpiau a pharau ac wrth gymryd rhan mewn gemau tîm.

110. Anogir disgyblion i ystyried a thrafod materion o bwys personol iddynt yn ystod sesiynau addoli ar y cyd, a rhydd yr amser cylch cysylltiedig gyfle iddynt ymchwilio'n ddyfnach i'r materion hynny.

111. Mae cyfundrefn 'Amser Aur' yr ysgol yn ysgogi plant i ymddwyn a gweithio yn dda, ac i roi ymdrech dda ym mhob gweithgarwch.

112. Pan fydd disgybl yn absennol heb esboniad, mae'r ysgol yn ffonio'r cartref ar y bore cyntaf. Mae polisïau priodol ar gael i hybu prydlondeb, presenoldeb ac ymddygiad da ac maent yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

113. Mae rhieni'n ei chael yn hawdd iawn cysylltu â'r ysgol i drafod unrhyw fater neu gonsýrn a chanmolant y wybodaeth a gânt am addysg eu plant. Tystia rhieni fod yr ysgol yn dda iawn am adnabod dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol ar ddau begwn y sbectrwm gallu.

114. Gweithredir polisïau a gweithdrefnau i leihau pob ffurf o aflonyddwch, gan gynnwys bwlian a dileu ymddygiad gormesol, yn effeithiol. Mae'r pwyslais ar ganmol nodweddion da yn hyrwyddo ymddygiad da ar draws yr ysgol. Caiff y disgyblion nodi cwynion mewn 'Bocs Gwrth Fwlian'.

115. Mae'r cyngor ysgol yn cael ei arwain yn dda. Mae dau blentyn o'r cyngor yn mynychu cyfarfodydd bwrdd llywodraethol yr ysgol ac yn cael cyfle i roi eu barn

ar faterion addas. Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn derbyn cyllid blynyddol i'w ddefnyddio at eu gweithgareddau. Y plant fydd fel arfer yn dewis sut i wario'r arian. Mae hyn yn cyfoethogi gwaith yr ysgol wrth ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fenter a busnes.

116. Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth annog a galluogi'r disgyblion i fod yn iach, ac mae'n hyrwyddo ymarfer cyson a bwyta'n iach. Mae pwyslais cryf ar bob agwedd ar addysg iechyd, ac mae hyrwyddo ffordd iachach o fyw yn treiddio i'r cwricwlwm, ac yn amlwg yn yr arferion dyddiol. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i fwyta'n iach drwy ddarparu ffrwythau amser egwyl, a cheir trefn gylchynol o weithgareddau i hybu ffitrwydd ar yr iard chwarae adeg egwyl. Dyfarnwyd lefel 1 o raglen Ysgolion Iach i'r ysgol ac mae'n gweithio tuag at lefel 2.

117. Caiff cinio'r disgyblion ei drosglwyddo o ysgol leol arall. Mae'r fwydlen yn dilyn canllawiau'r awdurdod lleol ac yn iach iawn. Trwy'r cyngor ysgol, mae'r plant wedi gwahardd bisgedi, siocled a diod sydd yn llawn siwgr o'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys yr athrawon a chynorthwywyr

118. Mae'r safle yn ddiogel gyda phob drws ag angen cod i'w agor. Mae'r staff i gyd wedi eu hyfforddi mewn cymorth cyntaf.

119. Gweithredir polisïau a gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant yn effeithiol. Y pennaeth gweithredol yw'r person enwebedig am faterion ynglŷn ag amddiffyn plant ac mae'r staff arall yn ymwybodol o hynny. Maent i gyd wedi derbyn hyfforddiant ac yn gyfarwydd â'r drefn. Mae pob aelod o'r staff yn disgyn o fewn canllawiau'r awdurdod addysg lleol ynglŷn â gwirio am droseddau.

120. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn dda iawn gyda nodweddion rhagorol. Mae'r gweithdrefnau yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer cyfredol. Gweithia'r holl staff addysgu a chefnogi yn effeithiol iawn fel tîm i ddarparu cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd uchel, bob amser yn ystyriol o anghenion a lles y disgyblion. Gwna'r disgyblion ag ADY gynnydd da ac weithiau da iawn mewn perthynas â'u hanghenion a chyfnod eu datblygiad. Un o ragoriaethau'r ysgol ydy'r modd y darperir cefnogaeth i bob disgybl trwy ddefnyddio dulliau o gwestiynu agored sy'n gadael rhyddid i bawb i ymateb yn ôl eu gallu. Gwerthfawrogir cyfraniad pawb a chânt gyfle i ddatblygu yn unigol heb ymdeimlad o fethiant.

121. Mae systemau effeithiol ar gyfer adnabod ADY yn gynnar. Caiff cynlluniau addysg unigol (CAU) eu paratoi trwy drafodaeth rhwng yr athrawon dosbarth a'r cynorthwywyr dysgu. Mae'r cynlluniau'n cynnwys targedau eglur sy'n cyfateb ag anghenion disgyblion unigol. Adolygir y cynlluniau yn rheolaidd ac fe'u trafodir gyda'r rhieni a'r disgyblion. Mae disgyblion yn elwa o raglenni pwrpasol, megis POPAT a 'Small Steps' i ddatblygu a gwella eu sgiliau.

122. Nodwedd ragorol ar y ddarpariaeth yw llwyddiant yr ysgol o ran hyrwyddo cyfle cyfartal, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a herio stereoteipiau. Mae'n effeithiol iawn o ran cynnig cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd a gwaith yr ysgol.

123. Mae'r ysgol yn cydnabod ac yn parchu amrywiaeth. Mae'r agwedd hon yn rhan amlwg o gwricwlwm yr ysgol. Ar draws yr ysgol hyrwyddir goddefgarwch a chyfeillgarwch at bawb o bob cefndir, hil, a chred. Atgyfnerthir yr ymdeimlad hwn gan ethos teuluol yr ysgol lle caiff pob disgybl ei barchu a'i drin yn deg. Mae polisi cydraddoldeb hiliol yr ysgol yn bodloni gofynion cyfredol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

124. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

125. Arweinir yr ysgol yn gadarn o ddydd i ddydd gan y pennaeth gweithredol. Mae ei harweinyddiaeth yn gwneud yn siŵr bod gwerthoedd yr ysgol yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus. Mae ei hymrwymiad i les a datblygiad pob disgybl yn glir i bob aelod o staff, i'r llywodraethwyr ac i'r rhieni, a chaiff ei adlewyrchu yng ngwaith yr ysgol. Mae'n rhoi blaenoriaeth gadarn i osod, a chynnal, safonau uchel ac i ddatblygu'r disgyblion fel dysgwyr annibynnol sy'n meddu ar lefel uchel o fedrau allweddol.

126. Caiff ystyriaeth briodol ei roi i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Ceir enghreifftiau o gydweithio da gydag ysgolion eraill yn yr ardal, ac mae'r gwaith o gyflwyno Cwricwlwm 2008 a'r Fframwaith Sgiliau anstatudol yn derbyn sylw cadarn a thrwyadl.

127. Mae'r pennaeth gweithredol a'r athrawon yn dadansoddi data perfformiad disgyblion yn unigol ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod targedau unigol heriol, ond priodol, ar eu cyfer. Mae'r targedau'n realistig a chyraeddadwy, ac yn seiliedig ar berfformiad y disgybl, ac mae'r disgybl yntau yn cymryd rhan weithredol wrth osod y targedau.

128. Cyflawna'r staff i gyd eu cyfrifoldebau cwricwlaidd a rheolaethol yn effeithiol, ar y cyfan. Mae safonau cyflawniad a'r ddarpariaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd, a gweithredir ar unrhyw argymhellion. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau anorfod, mae llwyth gwaith y pennaeth fel arweinydd y mwyafrif mawr o bynciau'r ysgol yn ormodol.

129. Mae polisi a gweithdrefnau rheoli perfformiad yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n briodol. Mae gwerthusiad staff yn rhan ohono, ac mae hynny'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad proffesiynol pellach. Dilynwyd y canllawiau ar gyfer athro newydd gymhwyso yn briodol yn ystod o flwyddyn addysgol flaenorol.

130. Mae'r CDY yn ddogfen ddefnyddiol a gweithredol sy'n gosod targedau mewn nifer rhesymol o faterion. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn rhai cyfredol, ac yn ymateb i flaenoriaethau ysgol, sirol a chenedlaethol. Mae'r gweithdrefnau gwerthuso sydd ynghlwm wrth y CDY yn fodd effeithiol o fesur cynnydd ar y gwahanol faterion.

131. Ar y cyfan, mae dealltwriaeth y llywodraethwyr o'u rôl a'u cyfrifoldebau yn glir. Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus at brosesau cynllunio strategol yr ysgol, o dan arweiniad y pennaeth gweithredol. Trafodir y ddarpariaeth addysgol yn rheolaidd, fel rhan o brosesau monitro'r ysgol. Rhoddant gefnogaeth dda iawn i'r pennaeth gweithredol a gweddill staff yr ysgol.

132. Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac, yn gyffredinol, rhoddir sylw priodol i ofynion statudol wrth baratoi a gweithredu polisïau. Er hyn, nid yw cynnwys adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i rieni yn cyfarfod â'r gofynion statudol yn llawn.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

133. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

134. Mae'r trefniadau hunan arfarnu manwl a weithredir yn sicrhau bod gan yr ysgol wybodaeth dda am ei pherfformiad. Mae canfyddiadau'r ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu ar gyfer y saith cwestiwn allweddol yn cyd-fynd â barn y tîm arolygu mewn chwech allan o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnwyd gradd yn uwch nag a ddynodwyd gan yr ysgol ar gyfer Cwestiwn Allweddol 4.

135. Mae ansawdd adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn dda ac yn rhoi sylw addas i feini prawf y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae ffocws cryf yn yr adroddiad ar arfarnu safonau cyflawniad disgyblion ac mae'n cynnwys dadansoddiad manwl o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r agweddau hynny sydd angen datblygiad pellach. Mae'r adroddiad yn glir a chryno ac yn cyfeirio at ystod briodol o ffynonellau tystiolaeth.

136. Ceir systemau monitro manwl ym mhob pwnc cwricwlaidd. Dilynir camau tebyg ym mhob un, gan gynnwys arfarniad o'r ddarpariaeth, saith cwestiwn allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin a monitro'r addysgu. Nodwyd materion i weithredu arnynt a chynhwyswyd hwy yn y CDY. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldebau hyn yn drwm iawn ar ysgwyddau'r pennaeth gweithredol.

137. Darperir cyfleoedd addas i rieni fynegi barn ar y ddarpariaeth allgyrsiol trwy lenwi holiadur pwrpasol. Dadansoddwyd y canfyddiadau a gweithredwyd ar rai o'r materion a godwyd. Mae'r ysgol yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryder a ddaw i'r amlwg.

138. Rhoddir cryn bwyslais ar lais y dysgwr. Caiff y disgyblion gyfle i fynegi barn ar eu dysgu mewn meysydd penodol megis Cymraeg, Saesneg a TGCh.

139. Trwy'r cyngor ysgol, rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion fynegi barn am faterion sy'n effeithio ar eu bywydau yn yr ysgol ac yn y gymuned. Dylanwadodd y cyngor ysgol ar benderfyniadau cymunedol yn ddiweddar hefyd. Er enghraifft, bu cynrychiolwyr o'r cyngor ysgol yn trafod y posibilrwydd o osod coeden Nadolig yn y pentref gyda'r cyngor cymuned lleol.

140. Mae ansawdd y broses o gynllunio er mwyn sicrhau gwelliant yn dda. Defnyddir y wybodaeth a gesglir trwy brosesau hunan arfarnu yn effeithiol er mwyn pennu blaenoriaethau a thargedau yn y CDY. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu clir ynghyd â dangosyddion llwyddiant ac mae'n dyrannu adnoddau ar gyfer cefnogi'r blaenoriaethau.

141. Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r mwyafrif llethol o'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

142. Mae cynlluniau gwaith cyfnod allweddol 1 a dan bump wedi eu diweddaru i gyd-fynd â'r Fframwaith ar Gyfer Plant 3–7 oed a'r CC presennol ar gyfer disgyblion B1 a B2.

143. Datblygwyd systemau effeithiol i fonitro safonau a darpariaeth yn y pynciau sylfaen a gwneir defnydd pwrpasol a chyson o asesu i gynllunio gwaith disgyblion.

144. Mae polisi amddiffyn plant ac ABCh ar gael, ac mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu ei chynlluniau hunan arfarnu.

145. Cwblhawyd y gwaith o ymestyn yr ystafell ddosbarth ar gyfer cyfnod allweddol 2, a gwneir defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael yn ystafell ganol yr ysgol gan y Cyfnod Sylfaen.

146. Mae'r ysgol yn cwrdd yn llawn â'r gofynion parthed cofrestru disgyblion, adroddiadau plant dan bump a phrosbectws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni yn cwrdd yn llawn â'r gofynion statudol

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

147. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

148. Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o staff addysgu ac mae'r gymhareb athro/disgybl yn ffafriol. Mae cymwysterau priodol gan yr athrawon ac ystod dda o arbenigedd pynciol. Mae'r athrawon rhan amser, cyflenwi, a theithiol sy'n ymweld â'r ysgol yn cyfrannu'n gadarnhaol at gwricwlwm yr ysgol, gan y gwneir defnydd da o'u harbenigedd pynciol mewn pynciau megis celf a cherddoriaeth.

149. Diwellir y gofynion statudol ynglŷn ag ail-fodelu'r gweithlu. Mae trefn addas yn ei lle i sicrhau amser cynllunio, paratoi ac asesu i'r athrawon.

150. Mae'r defnydd a wneir o gynorthwywyr dosbarth yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth yn yr ysgol, ac i'w gymeradwyo. Maent yn cyfrannu'n sylweddol at gwricwlwm yr ysgol, yn rhoi cefnogaeth sylweddol i'r staff addysgu, ac arweiniad gwerthfawr i'r disgyblion.

151. Mae'r staff yn manteisio ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant ac arweiniad yn eu datblygiad proffesiynol parhaus. Cafodd hyfforddiant diweddar effaith gadarnhaol ar y dysgu a'r addysgu yn yr ysgol, a gwneir defnydd pwrpasol o'r gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan yr AALl.

152. Mae adnoddau digonol ar draws y cwricwlwm sy'n briodol i anghenion dysgu'r disgyblion. Cânt eu defnyddio'n effeithiol iawn i hyrwyddo'r dysgu. Er hyn, mae peth prinder o offer chwarae mawr ar gyfer plant dan bump. Mae'r adnoddau ar gyfer TGCh yn dda iawn, a chânt eu defnyddio'n effeithiol gan staff a disgyblion i hybu'r dysgu.

153. Gyda'r niferoedd presennol, mae'r safle yn gwbl addas i sicrhau addysg dda a chefnogaeth i ddisgyblion. Er hynny, nid yw yn rhwydd iawn i symud o un rhan o'r ysgol i'r llall heb amharu ar waith naill ai'r ysgrifenyddes neu un o'r ddau ddosbarth. Mae'r adeilad a'r ardaloedd allanol yn cael eu cadw'n raenus ac yn cael eu defnyddio'n addas.

154. Caiff yr adeilad ei gadw mewn cyflwr da a rhoddir sylw priodol i faterion iechyd a diogelwch. Mae arddangosfeydd priodol ar hyd a lled yr ysgol, ac mae'r adeilad yn cynnig mynediad addas ar gyfer disgyblion neu oedolion sydd ag anableddau corfforol. Nid oes mynediad rhwydd i blant dan bump oed a chyfnod allweddol 1 i'r ardal allanol bwrpasol tu allan i'r ysgol.

155. Mae amgylchedd allanol yr ysgol yn ddeniadol ac yn cyfrannu at ddysgu'r disgyblion. Mae'r lle chwarae yn lân gyda marciau clir. Mae ardal allanol, yn cynnwys gerddi a bocs tywod, wedi eu creu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ym mhen blaen yr ysgol. Mae 'Parc Eifion', maes cymunedol a ddatblygwyd gan Gymdeithas Rieni'r ysgol, yn rhoi safle mawr, diogel gydag adnoddau da i'r plant cael chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac awyr agored. Mae lle addas a diogel i barcio ceir neu fws i ffwrdd o'r heol.

156. Yn ffinio â'r ysgol, mae neuadd y gymuned ar gael i'r ysgol yn ystod y dydd. Mae yn adeilad da a adnewyddwyd i safon uchel yn ddiweddar. Caiff ei ddefnyddio ar gyfer gwersi addysg gorfforol a cherddoriaeth. Mae hefyd yn gartref i'r ysgol feithrin leol.

157. Caiff cyllideb yr ysgol ei rheoli'n effeithlon, ac mae'r penderfyniadau gwariant wedi eu cysylltu'n briodol gyda'r cynlluniau datblygu. Gwneir defnydd effeithiol o gyfraniad sylweddol oddi wrth y Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Adolygir y gwariant yn rheolaidd gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Plant o dan bump oed

158. Gan mai dau blentyn yn unig sydd yn grŵp oedran dan bump, nid yw'n briodol gwneud sylwadau am safonau yn y chwe maes gweithgarwch. O ganlyniad, mae'r graddau a'r sylwadau a ganlyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth yn yr ysgol.

Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

159. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad llafar y plant yn eang a phwrpasol.

160. Caiff y plant anogaeth i ddatblygu geirfa eang trwy wrando ar storïau, dysgu caneuon syml ac efelychu iaith yr athrawes a'r cynorthwyydd dosbarth.

161. Darperir cyfleoedd i ddefnyddio iaith lafar ac adnabod llythrennau a geiriau syml yn yr ardaloedd cyfoethogi dysgu.

162. Ceir ystod eang o lyfrau addas a darperir sachau stori ar gyfer defnydd y dosbarth a'r cartref.

163. Darperir cyfleoedd dyddiol ar gyfer meithrin sgiliau marcio gan gynnwys creu llythrennau trwy ddefnyddio clai a phaent.

Diffygion

164. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad personol a chymdeithasol
Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

165. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn amrywio o amser cylch, cyfleoedd i chware rôl, cyd-chwarae a chydweithio mewn grwpiau ffocws bach a dosbarth cyfan.

166. Anogir y plant i wneud ffrindiau ac i barchu teimladau eraill.

167. Rhoddir cyfle iddynt i ymgymryd â chyfrifoldeb ac i ganolbwyntio am gyfnodau lled faith.

168. Darperir cyfleoedd iddynt i drafod eu teimladau a'r pethau sy'n eu gwneud yn drist neu yn hapus mewn ffordd agored ac aeddfed.

Diffygion

169. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad Mathemategol
Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

170. Darperir ystod o weithgareddau grŵp i'r plant er mwyn meithrin eu sgiliau adnabod a defnyddio rhifau 1–10.

171. Rhoddir cyfleoedd iddynt i ddefnyddio arian wrth chwarae rôl yn y siop ffrwythau a'r siop deithio.

172. Darperir gemau rhif ar eu cyfer yn ogystal â gweithgareddau bwrdd.

173. Darperir cyfleoedd i ddosbarthu gwrthrychau yn ôl maint, siâp a lliw.

174. Darperir cyfleoedd i wneud patrymau syml trwy ddefnyddio printiadau a threfnu gwahanol wrthrychau.

Diffygion

175. Nid oes diffygion pwysig.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Nodweddion da

176. Darperir cyfleoedd i'r plant i flasu gwahanol ffrwythau ac i fynegi eu hoffter. Anogir hwy i esbonio eu dewis ac i ddeall pam fod bwyta ffrwythau yn dda iddynt.

177. Darperir rhai cyfleoedd iddynt i archwilio'r byd allanol o dan ofal oedolyn.

178. Rhoddir cyfleoedd iddynt i ddeall o ble mae rhai bwydydd yn dod.

179. Cânt gyfle hefyd i ddefnyddio ardal ddarganfod, synhwyrus ac i ddefnyddio offer sy'n goleuo mewn tywyllwch.

180. Mae'r ddarpariaeth chwarae rôl hefyd yn cyfrannu at eu dealltwriaeth fod gwledydd yn wahanol ac i ddewis llefydd i fynd iddynt ar wyliau. Er enghraifft, cânt gyfle i drafod cyfrifiadur a ffôn wrth archebu gwyliau.

181. Darperir cyfleoedd iddynt i ddefnyddio cyfrifiadur. Mae ystod eang o feddalwedd addas ar gael yn y dosbarth, ynghyd â chlustffonau, bwrdd gwyn rhyngweithiol, camera digidol ac offer recordio.

Diffygion

182. Prin yw'r cyfleoedd a gaiff y plant i archwilio gwrthrychau yn annibynnol ac i feithrin eu chwilfrydedd yn y byd o'u cwmpas trwy holi cwestiynau.

183. Prin hefyd yw'r cyfleodd a ddarperir i'r disgyblion i ddefnyddio'r lle allanol fel adnodd ymchwilio a darganfod heb arweiniad oedolyn.

Datblygiad creadigol
Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Nodweddion da

184. Caiff y plant gyfle i ddefnyddio offer peintio, argraffu, gludio a thorri o dan gyfarwyddid oedolion ran fynychaf.

185. Darperir cyfleoedd cyfyngedig iddynt i wneud dewisiadau wrth greu mygydau ac efelychu gwaith eraill.

186. Darperir cyfleoedd iddynt i greu lluniau trwy ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol addas.

187. Mae dewis eang o offerynnau cerdd ar gael at eu defnydd a darperir cyfleoedd iddynt i ddefnyddio offerynnau i greu cyfansoddiadau creadigol gyda'r dosbarth cyfan.

188. Mae'r parc chwarae cyfagos yn adnodd gwych ar gyfer creadigaethau a pherfformiadau o'r fath a darperir cyfleoedd achlysurol i'r plant yn y parc antur hwn.

189. Defnyddir ystod o ganeuon Cymraeg syml i hybu gallu'r plant i ganu yn gywir a chyda mynegiant.

Diffygion

190. Prin yw'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i ddewis adnoddau creu a pheintio yn annibynnol ac i greu peintiadau a chreadigaethau 3-D ar destunau o'u dewis hwy.

191. Prin yw'r cyfleoedd a'r anogaeth a ddarperir i'r plant i ddefnyddio offerynnau cerdd a sain yn ystod eu cyfnodau dewis rhydd.

Datblygiad corfforol
Gradd 3: Nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Nodweddion da

192. Rhoddir cyfleoedd eang i'r plant i ddefnyddio amrywiaeth o offer bach i feithrin eu sgiliau marcio a rheoli.

193. Cânt gyfle i ddatblygu ymwybyddiaeth o ofod yn ystod gwersi addysg gorfforol ynghyd â datblygu medrau symud ar wahanol lefelau a chyflymder. Cânt gyfle i symud mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys rhedeg, sgipio, cerdded, llusgo a rholio.

194. Darperir peth cyfle iddynt i ddefnyddio teganau mawr yn ystod cyfnod egwyl ac ar ymweliadau achlysurol â'r parc antur gyfagos.

195. Anogir hwy i wisgo'n addas ar gyfer addysg gorfforol ac i wisgo a dadwisgo yn annibynnol. Rhoddir pwyslais mawr ar hybu dealltwriaeth y plant o hylendid a diogelwch.

Diffygion

196. Nid oes cyflenwad digonol o offer chwarae mawr ar gael i ddatblygu sgiliau rheoli, dringo ac anturus yn ddyddiol, yn fewnol nac yn allanol.

197. Ni ddarperir cyfleoedd dyddiol i'r plant i ddatblygu eu medrau pedlo a llywio wrth ddefnyddio teganau mawr yn yr ardal tu allan.

Mathemateg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

198. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae disgyblion yn medru dwyn ffeithiau rhif i gof yn gyflym iawn, ac yn defnyddio strategaethau pen yn ddeallus a chyflym er mwyn datrys problemau rhif.

199. Gall disgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso cysyniadau mathemategol i amrywiol sefyllfaoedd yn hyderus a chywir. Maent yn deall pwysigrwydd rhif a chyfrifo yn eu bywyd yn gwbl eglur ac yn hyderus iawn yn eu defnydd.

200. Mae dealltwriaeth disgyblion hynaf cyfnod allweddol 2 o'r berthynas rhwng canrannau, ffracsiynau a'r system ddegol yn gadarn iawn, a gallant wneud cymariaethau cywir yn gyflym a hyderus iawn.

Nodweddion da

201. Yng nghyfnod allweddol 1, gall disgyblion adeiladu ar fedrau a sgiliau a ddysgwyd yn flaenorol i symud eu dysgu eu hunain ymlaen. Maent yn defnyddio geirfa fathemategol briodol yn hyderus ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol sy'n addas i'w hoedran.

202. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn medru darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau yn gywir, ac mae eu dealltwriaeth o werth lle yn gadarn. Gallant gyfrif ar lafar mewn camau o wahanol faint i fyny ac yn ôl.

203. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, gall disgyblion ddatrys problemau mathemategol yn hyderus. Maent yn egluro'u gwaith yn rhesymegol ac yn medru penderfynu ar y dulliau mwyaf addas o fynd i'r afael â thasgau mathemategol.

204. Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae'r disgyblion yn medru defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol mathemategol yn hyderus. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn ymdopi'n llwyddiannus gyda gemau ac ymarferion cyfrifiadurol, ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio rhaglenni megis taenlenni yn hyderus mewn sefyllfaoedd trawsgwricwlaidd.

205. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn gyffredinol yn medru amcangyfrif yn synhwyrol, a rhesymu'n fathemategol i gyfiawnhau a phrofi canlyniadau a damcaniaethau.

206. Mae'r disgyblion yn datblygu medrau trin data yn dda, gan gofnodi graffiau amrywiol ar bapur a thrwy gyfrwng y cyfrifiadur. Maent yn medru dehongli amrywiaeth o graffiau'n gywir a chyflym mewn amrywiol gyd-destunau trawsgwricwlaidd.

Diffygion

207. Nid oes diffygion pwysig.

Technoleg Gwybodaeth

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

208. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ystod eang o fedrau TGCh i gefnogi a hybu eu dysgu mewn ystod o dasgau ar

draws y cwricwlwm. Yn ystod yr arolygiad, defnyddiodd y disgyblion feddalwedd cyfrifiadurol ac offer camera fideo digidol yn llwyddiannus i greu ffilm wedi ei hanimeiddio.

209. Maent yn defnyddio'u medrau yn hyderus iawn, ac yn annibynnol a deallant bwrpasau gwahanol raglenni ar gyfer tasgau penodol. Defnyddiant eirfa briodol i ddisgrifio'u gwaith yn hyderus ac effeithiol.

210. Mae defnydd y disgyblion o raglen daenlen fel modd i gofnodi gweithgarwch siop ddychmygol o safon uchel, ac mae eu defnydd o ystod o declynnau TGCh, megis camerâu fideo a microffonau digidol, yn hyderus a deallus.

Nodweddion da

211. Yng nghyfnod allweddol 1, mae defnydd y disgyblion o offer TGCh amrywiol, gan gynnwys cyfrifiaduron a microffonau digidol, yn hyderus. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o'r offer a defnyddiant amrywiol raglenni, gan gynnwys prosesydd geiriau a gemau mathemategol, yn effeithiol wrth eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

212. Gall y mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ddilyn cyfarwyddiadau ar sgrin yn gywir. Gallant ddefnyddio meddalwedd priodol i greu cyflwyniad syml am wybodaeth ddaearyddol, gan ddefnyddio'r rhyngrwyd i ddarganfod lluniau i'w cynnwys yn y cyflwyniad. Maent yn gwneud defnydd da o raglenni priodol i hyrwyddo eu medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd.

213. Yng nghyfnod allweddol 2, mae pob disgybl yn medru gweithio'n annibynnol, hyderus ac effeithiol ar y cyfrifiadur. Defnyddiant gamera digidol, llonydd a fideo, i bwrpas a defnyddio'r lluniau i gyfoethogi gwaith prosiect neu ymchwil.

214. Gall disgyblion lwytho, cadw, galw nôl ac argraffu eu gwaith yn dda. Gallant hefyd drosglwyddo gwaith yn hyderus o un rhaglen gyfrifiadurol i'r llall. Gallant wneud dewisiadau doeth ynglŷn â lliw, ffurf a maint, er mwyn creu gwaith gorffenedig o safon gan ddilyn meini prawf a gytunwyd yn gynharach.

215. Mae'r defnydd o'r rhyngrwyd yn dda ar draws yr ysgol, a chaiff ei ddefnyddio'n briodol i ymchwilio a chefnogi dysgu'r disgyblion. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwbl ymwybodol o faterion diogelwch ar y we, gan ddefnyddio gwefan briodol i brofi eu gwybodaeth a chynyddu eu dealltwriaeth. Gallant drafod y peryglon yn ddeallus.

216. Gall disgyblion ar draws yr ysgol ddefnyddio meddalwedd trin data i lefel briodol i'w hoedran, gan gynnwys rhaglenni i gofnodi graffiau amrywiol mewn arbrofion gwyddonol a thaenlenni i fodelu gweithgarwch busnes.

Diffygion

217. Nid oes diffygion pwysig.

Celf

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

218. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am artistiaid, crefftwyr a dylunwyr gan weithio ar amrywiaeth o

gyfryngau. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn siarad gydag awdurdod am Picasso ac yn creu mygydau a pheintiadau sy'n efelychu ei waith.

219. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu dealltwriaeth o'r prosesau angenrheidiol i luniadu symudiadau corfforol trwy astudio gwaith Roald Broadstock, Lowry ac eraill. Maent yn trafod celf ac arddull artistiaid enwog yn aeddfed a hyderus gan ddefnyddio'r eirfa dechnegol briodol.

220. Maent yn defnyddio prosesau amlgyfrwng i'w cynorthwyo i greu brasluniau cyn defnyddio defnyddiau eraill i greu lluniadau gorffenedig.

221. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 wedi cydweithio gydag arlunydd a dyluniwr lleol i greu ffilm animeiddio. Maent yn deall yr angen i ddadansoddi, cymharu a gwerthuso gan ddatblygu eu syniadau trwy archwilio i'r defnyddiau a'r prosesau mwyaf effeithiol i greu'r ffilm orffenedig. Wrth werthuso eu gwaith gyda'u cyfoedion, mae'r disgyblion yn trafod yn ddeallus rai o'r technegau a ddefnyddiwyd ganddynt ac yn awgrymu ffyrdd o'i wella.

222. Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn dangos rheolaeth dda o wahanol gyfryngau gan gynnwys creonau, pastelau, paent, a phensiliau lliw i greu amrywiaeth o waith effeithiol.

223. Yn y ddau gyfnod allweddol, defnyddia'r disgyblion raglenni TGCh yn effeithiol i greu lluniau dychmygus a diddorol.

Diffygion

224. Nid oes diffygion pwysig.

Addysg gorfforol

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

225. Mae disgyblion ar draws cyfnod allweddol 2 yn arddangos sgiliau rhagorol wrth ymdrin â phêl, cydweithio a phartner, deallusrwydd o reolau gem pêl rwyd a chyd chwarae gêm. Maent yn cymryd rhan mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol, megis rhai a drefnir gan yr Urdd, ac yn profi llwyddiant.

226. Maent yn mireinio sgiliau, yn gwerthuso eu perfformiadau ac yn gwella mân frychau trwy gydol eu perfformiadau. Dangosant hefyd aeddfedrwydd personol aruchel wrth gynorthwyo ei gilydd a gwerthfawrogi ymdrechion eraill.

227. Maent yn deall pwysigrwydd cydweithio ac ymdrech wrth chware fel tîm.

Nodweddion da

228. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn datblygu ac yn atgyfnerthu eu medrau a'u technegau mewn gymnasteg gan ddangos rheolaeth gynyddol o'u cyrff wrth berfformio symudiadau.

229. Maent yn defnyddio tyndra yn briodol gan ddal symudiadau am gyfnod penodol, a chreu rhediad o symudiadau ar wahanol lefelau.

230. Maent yn ymwybodol o'r angen i gario offer yn ddiogel ac i gydweithio i gario matiau.

231. Maent hefyd yn ymwybodol o ofod ac o gymryd tro gan ystyried gofynion eraill yn ogystal â'u hunain.

232. Mae disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn gwisgo'n addas yn y gwersi ac yn gweithio'n egnïol dros gyfnodau estynedig. Dilynant gyfarwyddiadau'r athrawon yn fanwl gan arddangos dealltwriaeth dda o ofynion y gweithgareddau dan sylw ac o'r disgwyliadau o ran ansawdd eu perfformiad.

233. Maent yn disgrifio safon eu gwaith eu hunain a pherfformiad disgyblion eraill mewn ffordd wybodus gan ddefnyddio'r eirfa dechnegol gywir.

234. Mae ymwybyddiaeth disgyblion y ddau gyfnod allweddol o effeithiau llesol ymarfer ar y corff, yn dda. Maent hefyd yn deall pwysigrwydd cynhesu'r corff cyn cychwyn gwaith egniol.

235. Mae'r disgyblion yn defnyddio eu sgiliau yn effeithiol mewn gemau tîm mewn cystadlaethau ac yn y clybiau ar ôl ysgol.

Diffygion

236. Nid oes diffygion pwysig.

Addysg grefyddol

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

237. Yng nghyfnod allweddol 1, gall y disgyblion ddisgrifio rhai o brif nodweddion y grefydd Islam gan ddefnyddio geirfa briodol. Gallant ddwyn i gof ffeithiau a gwybodaeth a ddysgwyd yn flaenorol, ac roeddent yn medru disgrifio'n synhwyrol, ac ar lefel briodol, rai o'r gwahaniaethau rhwng Cristnogaeth ac Islam.

238. Gall y disgyblion hefyd nodi rhai adeiladau ac arteffactau o bwys i'r grefydd Islam a Christnogaeth.

239. Trwy gyfrwng addoli ar y cyd yn yr ysgol, mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd addoli, a phwysigrwydd mannau arbennig i bobl o wahanol grefyddau.

240. Mae gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wybodaeth dda am y grefydd Islam, a medrant gymharu'r grefydd yn hyderus gyda rhai crefyddau eraill. Defnyddiant wybodaeth flaenorol yn dda iawn i resymu ac ymchwilio, a medrant holi cwestiynau treiddgar wrth drafod rhai o nodweddion y grefydd.

241. Mae dealltwriaeth disgyblion cyfnod allweddol 2 o bwysigrwydd crefydd i wahanol bobl yn gadarn. Medrant uniaethu gyda dyheadau ymarferwyr Islam wrth iddynt gymryd rhan mewn pererindod.

242. Gwerthfawrogant fod crefyddau yn wahanol i'w gilydd, a gallant ddisgrifio'r gwahaniaethau yn effeithiol, ac maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at y gwahaniaethau hynny.

243. Mae'r disgyblion yn arddangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd addoli, a phwysigrwydd mannau ac arteffactau arbennig i bobl o wahanol grefyddau. Amlygir hyn yn y gwersi ac yn y gwasanaethau addoli ar y cyd.

244. Deallant yn llawn y modd y gall crefydd ddylanwadu ar ffordd pobl o fyw, a medrant drafod y materion hyn yn aeddfed a hyderus mewn grwpiau trafod.

Diffygion

245. Nid oes diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn ymfalchïo yng nghanlyniadau'r arolygiad sy'n adlewyrchu'r gwaith ardderchog sy'n digwydd yn Ysgol Pontrobert. Rydym yn arbennig o falch o'r plant , eu hymdrechion a'u llwyddiannau ym mhob agwedd o waith a bywyd yr ysgol.

Rydym yn ymhyfrydu yn y ffaith fod gofal arbennig, ethos gweithgar a chyfeillgar yr ysgol yn cael eu cydnabod ynghyd ac ymddygiad rhagorol y disgyblion. Ymhyfrydwn yng ngallu'r disgyblion i gyd-weithio'n hyderus mewn amrywiol sefyllfaoedd ac am eu hagwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu.

Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn y ganmoliaeth a roddwyd i ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd a'r profiadau eang a gyflwynir i'r disgyblion. Cydnabyddir medrau'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu ac ymroddiad y llywodraethwyr.

Cydnabyddir y cynnydd da iawn gyda rhai nodweddion rhagorol a welir ym medrau'r disgyblion mewn llythrennedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), rhifedd a dwyieithrwydd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn edrych ymlaen at yr her o gynnal y safonau uchel sydd eisoes wedi eu cyrraedd. Mae cynlluniau ar y gweill i addasu'r adeilad ymhellach er mwyn ehangu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump a gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau ystafell ddosbarth a'r awyr agored. Byddwn yn adeiladu ar yr arfer dda sy'n bodoli yn yr ysgol er mwyn cwrdd â gofynion y Fframwaith ar gyfer dysgu plant 3-7 oed yng Nghymru yn y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008.

Dymuna Ysgol Pontrobert ddiolch yn arbennig i aelodau'r tîm arolygu am eu cwrteisi a'u proffesiynoldeb yn ystod yr arolygiad.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Pontrobert
Math o ysgol	Cynradd
Ystod oedran y disgyblion	4-11
Cyfeiriad yr ysgol	Pontrobert Meifod Powys
Cod post	SY22 6JN
Rhif ffôn	01938 500394

Pennaeth	Miss J Peate (Pennaeth Gweithredol)
Dyddiad penodi	Medi 1af 2007
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mrs Eleri Thomas
Arolygydd cofrestredig	Mr Terwyn Tomos
Dyddiadau'r arolygiad	20–22 Hydref 2008

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion		2	3	3	4	2	5	5	24

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	2	1	2.2

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	12:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	12
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.1: 1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Hydref 2007	-	97.6	95.7
Gwanwyn 2008	-	98.6	91.7
Haf 2008	94.3	96	95.1

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	0
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008	Nifer y disgyblion yn B2	4
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn llai na phump, ni chynhwysir gwybodaeth gryno		

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008	Nifer y disgyblion yn B6	4
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn llai na phump, ni chynhwysir gwybodaeth gryno		

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Arolygwyd yr ysgol dros gyfnod o chwe diwrnod arolygu gan dîm o dri arolygydd, ac enwebai.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn-arolygiad gyda'r staff, rhieni a'r corff llywodraethol i drafod gwaith a bywyd yr ysgol.
- Derbyniwyd deuddeg o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni, a chawsant eu dadansoddi'n ofalus. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion yn gadarnhaol iawn.
- Archwiliwyd dogfennau'r ysgol.
- Arolygwyd 18 o wersi a rhannau o sesiynau addysgu, y mwyafrif ohonynt yn y chwe phwnc a arolygwyd yn benodol.
- Gwrandawodd yr arolygwyr ar ddisgyblion yn darllen ar draws yr ystod gyfan o allu ac oedran.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r disgyblion am eu gwaith ac am fywyd yr ysgol.
- Arsylwyd ymddygiad y disgyblion yn ystod amser egwyl, cinio ac ar ddiwedd a dechrau'r diwrnod ysgol.
- Mynychwyd y gwasanaethau cydaddoli dyddiol gan yr arolygwyr.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol i drafod canfyddiadau'r arolygiad.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	**Cyfrifoldebau**
Mr Terwyn Tomos Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion, Atodiadau, Cwestiynau Allweddol 1, 3, 5 a 7. Pynciau: mathemateg, technoleg gwybodaeth, addysg grefyddol
Ms Owenna Davies Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 2, 4 a 6 Pynciau: plant dan bump, celf, addysg gorfforol
Mr Dylan Jones Arolygydd Lleyg	Rhai agweddau o gwestiynau allweddol 1, 2, 3, 4 a 7
Miss Jane Peate Enwebai	Mynychu cyfarfodydd a darparu gwybodaeth

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad parod trwy gydol yr arolygiad.

Contractwr: EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît H
Tŷ Britannic
Llandarsi
Castell-nedd
SA10 6JQ